

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

1. Beth ydych chi'n ei asesu?

Cynnig i ail-gyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth o fis Medi 2022.

Cynnig 1: Uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode trwy:

- Newid ystod oedran isaf disgyblion yn Ysgol Gynradd Evenlode o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Evenlode ar gyfer y 96 o leoedd meithrin rhan-amser; a
- Dirwyn Ysgol Feithrin Bute Cottage i ben a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin fel eu bod yn rhan o drefn lywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

Cynnig 2: Uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan trwy:

- Newid ystod oedran isaf disgyblion yn Ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Cogan ar gyfer y 96 o leoedd meithrin rhan-amser; a
- Dirwyn Ysgol Feithrin Cogan i ben a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin fel eu bod yn rhan o drefn lywodraethu Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022.

2. Pwy sy'n gyfrifol?

Enw	Nathan Slater	Teitl Swydd	Rheolwr Prosiect
Tîm	Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif	Cyfarwyddiaeth	Dysgu a Sgiliau

3. Pryd mae'r asesiad yn cael ei gynnal?

Dyddiad dechrau'r asesiad	Tachwedd 2021
----------------------------------	---------------

4. Disgrifiwch y cynnig?

Beth yw diben y cynnig?

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro'n cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a bod ganddynt yr amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Fe wnaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad rhwng **20 Medi 2021** a **5 Tachwedd 2021**, ynghylch cynnig i ail-gyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth o fis Medi 2022.

Cynnig 1: Uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode trwy:

- Newid ystod oedran isaf disgyblion yn Ysgol Gynradd Evenlode o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Evenlode ar gyfer y 96 o leoedd meithrin rhan-amser; a
- Dirwyn Ysgol Feithrin Bute Cottage i ben a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin fel eu bod yn rhan o drefn lywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

Cynnig 2: Uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan trwy:

- Newid ystod oedran isaf disgyblion yn Ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Cogan ar gyfer y 96 o leoedd meithrin rhan-amser; a
- Dirwyn Ysgol Feithrin Cogan i ben a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin fel eu bod yn rhan o drefn lywodraethu Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022.

Byddai'r cynigion yn golygu bod Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yn cael eu dirwyn i ben a byddai'r holl staff a disgyblion o'r cyfnodau meithrin yn cael eu trosglwyddo i fod dan drefniadau lywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn y drefn honno. Fodd bynnag, byddai'r ddarpariaeth feithrin yn dal i gael ei chyflwyno o'r adeiladau presennol gyda'r ddau gynig.

Mae'r adborth a'r farn a fynegwyd yn yr ymgynghoriad yn cael eu hystyried gyda'i gilydd trwy gyhoeddi adroddiad ymgynghori ar y cynnig a'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned hefyd.

Pam fod angen i chi ei roi ar waith?

Dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn symud tuag at fodel 3-11 ar gyfer addysg gynradd.

Mae Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn ddwy o bedair ysgol gynradd nad ydynt yn darparu addysg feithrin ar hyn o bryd. Mae'r ysgolion cynradd eraill nad oes ganddynt ddarpariaeth feithrin yn destun cynigion ar wahân a fydd yn golygu creu darpariaeth feithrin.

Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yw'r unig ddwy ysgol feithrin annibynnol yn y Fro; h.y. endidau ar wahân â'u cyrff llywodraethu a chyllideb ddirprwyedig eu hunain.

Mae Ysgol Feithrin Bute Cottage yn blaenoriaethu disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gynradd Evenlode ac mae Ysgol Feithrin Cogan yn blaenoriaethu disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Cogan.

Cynigir uno Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Feithrin Bute Cottage, gan arwain at ddarparu 96 o leoedd meithrin rhan-amser yn Ysgol Gynradd Evenlode (ar safle presennol Ysgol Feithrin Bute Cottage). Cynigir uno Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Feithrin Cogan hefyd, gan arwain at ddarparu 96 o leoedd meithrin rhan-amser yn Ysgol Gynradd Cogan (ar safle presennol Ysgol Feithrin Cogan). Byddai hyn yn datblygu parhad a dilyniant yn nysgu'r plant o deirblwydd oed. Byddai hyn yn sicrhau bod dull cyson o gynllunio a darparu'r cyfnod sylfaen (meithrin i flwyddyn dau) ac yn lleihau i'r eithaf y potensial ar gyfer tarfu yn ystod y broses bontio o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd.

Byddai cyflwyno polisïau, strategaethau ac addysgeg sy'n gyson ar draws pob oed yn arwain at ddisgwyliadau clir ac ethos a rennir sy'n cael ei ddeall gan blant, rhieni a gofawyr drwy bob cyfnod o fewn addysg gynradd. Byddai'r cynigion hefyd yn ategu dull cydgysylltiedig o gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion agored i niwed ar draws y cyfnod sylfaen.

Byddai un tîm arwain a chorff llywodraethu ar draws pob ysgol yn arwain at ddileu achosion o ddyblygu swyddogaethau rheoli a llywodraethu. Dim ond ag un set o bolisïau ac un set o gyfathrebiadau y byddai angen i rieni ymgyswddo.

A oes angen i ni neilltuo adnoddau sylweddol iddo (megis arian neu amser staff)?

Adnoddau Dynol

Byddai Cyngor Bro Morgannwg yn rhoi cymorth llawn i'r llywodraethwyr, pennaeth a staff yn yr ysgol gydag unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Mae gan yr ysgol fynediad at bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor, gan gynnwys polisïau recriwtio. Mae'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn cydweithio'n agos gyda llywodraethwyr i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd a chllir gyda'r holl gyflogaeth yn digwydd ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â newid yn lleoliad eu gweithle.

Byddai staff Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yn trosglwyddo i fod dan drefniadau llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn y drefn honno.

Cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan fyddai'n gyfrifol am ddiwygio'u strwythurau staffio i adlewyrchu'r ffaith bod y cyfnod meithrin yn cael ei ychwanegu. Ni ragwelir y byddai unrhyw achosion o golli swyddi'n orfodol o ganlyniad i'r cynigion hyn. Fodd bynnag, byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i drefniadau staffio'n amodol ar ymgynghori â staff a'r undebau llafur perthnasol lle y bo'n angenrheidiol.

Ymdriniwyd ag amser swyddogion trwy greu Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Cyllid Cyfalaf

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Ni fyddai unrhyw oblygiadau cyfalaf o ganlyniad i'r ddau gynnig.

Fodd bynnag, mae £1.362m wedi'i gynnwys o fewn y Rhaglen Gyfalaf fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i roi cymorth i ail-gyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth. Pe bai'r cynigion yn cael eu cymeradwyo, byddai'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i adleoli'r ddarpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Evenlode ar un safle. Byddai'r Cyngor yn cynnal asesiad llawn o ddichonoldeb a byddai'n rhaid cynnal ymarfer ymgynghori ar wahân fel rhan o'r broses gynllunio ynghylch unrhyw gynlluniau.

Cyllid Refeniw

£286,292 yw'r gyllideb ar gyfer Ysgol Feithrin Bute Cottage yn 2021/22, sy'n cyfateb i £6,983 y disgybl (CagALI). Cafodd Ysgol Feithrin Cogan gyllideb a oedd yn gyfanswm o £280,829 sy'n cyfateb i £7,590 y disgybl (CagALI). Mae swm y cyllid am bob disgybl yn sylweddol uwch na'r cyllid cyfartalog am bob disgybl ar draws yr holl ysgolion cynradd, sef £3,804 yn 2021/22. Mae'r cyllid am bob disgybl yn uwch ar y cyfan mewn ysgolion meithrin annibynnol oherwydd costau'r pennaeth a chostau sefydlog eraill a gaiff eu hamsugno dros nifer isel o ddisgyblion.

Ysgol Gynradd Evenlode sy'n cael y lefel isaf o gyllid am bob disgybl ar draws yr holl ysgolion yn y Fro ar hyn o bryd (£3,252 yn 2021/22). Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r diffyg darpariaeth meithrin. Yn 2021/22 cafodd Ysgol Gynradd Cogan gyllid o £4,071 am bob disgybl.

Pe bai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith, byddai Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan ill dwy yn cael cyllideb unigol gan gynnwys dyraniadau ar gyfer y cyfnod meithrin. Gan bod y mwyafrif o gyllid ysgol yn seiliedig ar nifer y disgyblion ar y gofrestr, byddai'r cynigion yn gwella sefyllfa gyllidebol Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan ar y cyfan.

Caiff y fformiwla cyllid ei llywio gan gyllid am bob disgybl a nifer o ddyraniadau lwmp-swm i bob ysgol. Ar y sail honno yr arbediad i'r fformiwla o ganlyniad i uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode fyddai £70,000 yn seiliedig ar waredu lwfansau lwmp-swm. £1,346,511 yw cyllideb Ysgol Gynradd Evenlode ar gyfer 2021/22 a £286,292 yw Cyllideb Ysgol Feithrin Bute Cottage (sy'n gwneud cyfanswm o £1,632,803). £1,562,803 fyddai'r gyllideb gyfunol a fyddai'n cael ei chreu trwy uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ag Ysgol Gynradd Evenlode yn ôl cyfraddau cyllido 2021/22.

£70,000 fyddai'r arbediad i'r fformiwla cyllid o ganlyniad i uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan yn seiliedig ar waredu lwfansau lwmp-swm. £838,705 yw cyllideb Ysgol Gynradd Cogan ar gyfer 2021/22 a £280,829 yw cyllideb Ysgol Feithrin Cogan (sy'n gwneud cyfanswm o £1,119,534). £1,049,934 yw'r gyllideb gyfunol a fyddai'n cael ei chreu trwy uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan yn ôl cyfraddau cyllido 2021/22.

Byddai'r cynigion yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau ariannol ar draws yr holl ysgolion. Mae ysgolion sy'n fwy o faint hefyd yn gallu sicrhau gwerth gwell am arian ar y cyfan trwy ddarbodion maint a gall un gyllideb fod yn haws i'w rheoli, e.e. rhoi cyfrif am

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

wariant ar gynnal a chadw safle a fyddai o fudd i'r cyfnodau meithrin a chynradd o'i gymharu â gweinyddu dau gontract gwahanol.

Beth yw deilliannau bwriadedig y cynnig?

- Un gyfundrefn llywodraethu ac atebolrwydd gydag un pennaeth a chorff llywodraethu â chyfrifoldeb am bob cyfnod addysg yn y naill ysgol gynradd a'r llall.
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol trwy fod yn rhan o ysgol gynradd sy'n addysgu ar draws pob cyfnod mewn addysg gynradd.
- Un set o bolisiâu ar draws pob grŵp blwyddyn, gan ymgorffori arfer gorau o'r ysgolion unigol.
- Un weledigaeth, strategaeth ac ethos ar draws pob cyfnod.
- Creu arbedion refeniw sy'n gysylltiedig â chostau rhedeg uwch ar gyfer ysgolion meithrin annibynnol a fyddai'n rhyddhau cyllid ychwanegol i mewn i'r fformiwla cyllid ysgolion ar y cyfan.
- Cyfleoedd i gyflawni arbedion effeithlonrwydd trwy ddarbodion maint a chaffael cydgysylltiedig.
- Cyfathrebu wedi'i symleiddio rhwng rhieni a staff gydag un pwynt cyswllt trwy bob cyfnod mewn addysg gynradd.

Ar bwy mae'r cynnig yn effeithio?

Staff, disgyblion, rhieni i ddisgyblion, llywodraethwyr yn Ysgol Feithrin Bute Cottage, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan, ac Ysgol Gynradd Cogan.

A fydd y cynnig yn effeithio ar y modd y mae sefydliadau eraill yn gweithio?

Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol gan na chynigir unrhyw newid i'r dalgylch presennol.

Nid oes darpariaeth feithrin o gwbl yn Ysgol Gynradd Evenlode nac Ysgol Gynradd Cogan ar hyn o bryd. Gall plant gael darpariaeth feithrin yn unedau meithrin ysgolion eraill neu mewn darparwr cofrestredig.

A fydd y cynnig yn effeithio ar y modd yr ydych yn darparu gwasanaethau?

Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ysgolion yn gwasanaethu eu cymunedau lleol a'u bod yn adlewyrchu'r galw. Mae angen ateb y galw yn y dyfodol am leoedd meithrin yn y Fro.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae peth wmbredd o wybodaeth ar gael mewn perthynas â phoblogaeth Bro Morgannwg. Gellir cael gafael ar yr wybodaeth hon o'r ffynonellau canlynol.

Amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer awdurdodau lleol

<https://gov.wales/docs/statistics/2017/170323-household-projections-local-authorities-2014-based-cy.pdf>

Tueddiadau'r dyfodol - poblogaeth <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/tueddiadaur-dyfodol-2017-poblogaeth.pdf>

Amcangyfrifon o'r boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016 (rhes 392 cod W06000014)

<https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland/mid2017/ukmidyearestimates2017finalversion.xls>

Data ar nodweddion gwarchoddedig o Gyfrifiad 2011 (nid yw data o gyfrifiad 2021 wedi cael ei gyhoeddi eto)

<https://gov.wales/statistics-and-research/census-population/?lang=cy>

A fydd y cynnig yn effeithio ar bolisiau neu arferion eraill?

Mae'r cynnig yn rhan o raglen amlinellol strategol y Cyngor ar y cyfan ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Bydd gweithrediad yr ysgol yn dal i gael ei gefnogi gan nifer o bolisiau a gweithdrefnau. Bydd yn ofynnol i'r corff llywodraethu barhau i gydymffurfio â'r holl bolisiau, gan gynnwys Polisiâu Cydraddoldeb y Cyngor a'r ysgol. Bydd gan yr holl ysgolion eu rhan i chwarae wrth gyflawni'r amcanion cydraddoldeb y mae'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau'n gyfrifol am eu cyflawni a chefnogi'r perfformiad yr adroddir arno yn yr adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol lle y bo'n briodol.

Allwch chi newid y cynnig fel ei fod yn mynd ati ymhellach i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da?

Cynigion i ail-gyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth i ddarparu'r deilliannau addysgol gorau yw'r rhai a gyflwynir.

Mae ein proses ymgynghori ffurfiol yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Gofynnwyd i ystod o unigolion a grwpiau am eu barn ynglŷn â'r cynigion hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori. Caiff yr holl ymatebion a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad eu hadlewyrchu yn yr Adroddiad Ymgynghori.

Cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau, mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau â buddiant wneud eu barn a'u safbwyntiau am y cynigion yn hysbys.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Fe ymgynghorodd y Cyngor â'r grwpiau canlynol:

Rhestr o grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r broses ymgynghori	
Staff (sy'n addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Feithrin Bute Cottage, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan	Corff Llywodraethu Ysgol Feithrin Bute Cottage, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan
Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant yn Ysgol Feithrin Bute Cottage, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan	Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol
Cyngor Tref Penarth a Chyngor Cymuned Sili a Larnog	Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar Bro Morgannwg (PDBCMB)
Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg	Cynghorwyr Lleol
Aelodau o Senedd Cymru (ASCau) / Aelodau Seneddol (ASau)	Comisiynydd y Gymraeg
Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)	Ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg
Estyn	Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Undebau Llafur
Comisiynydd Lleol yr Heddlu a Throseddau	Cyfarwyddwyr Addysg – Pob Awdurdod Cyfagos
Adran Drafnidiaeth y Cyngor	

Sut fyddwch chi'n cyflawni'r newidiadau arfaethedig?

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion ar 20 Medi a daeth i ben ar 5 Tachwedd 2021.

O fewn 13 wythnos i'r dyddiad cau, bydd adroddiad ymgynghori'n cael ei gyhoeddi ar wefanau'r Cyngor a'r ysgolion. Bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael gan y Cyngor ar gais hefyd. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgynghoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ymatebion i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn am y cynigion. Ym mis Rhagfyr 2021 bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynigion ai peidio.

Os bydd y Cyngor yn penderfynu parhau â'r cynigion rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad statudol.

Byddai'r cynnig yn golygu bod darpariaeth feithrin ym Mhenarth yn cael ei hail-gyflunio. Byddai Ysgol Feithrin Bute Cottage yn cael ei dirwyn i ben ac yn cael ei huno ag Ysgol Gynradd Evenlode. Byddai Ysgol Feithrin Cogan yn cael ei dirwyn i ben ac yn cael ei

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

huno ag Ysgol Gynradd Cogan. Byddai'r ddwy Ysgol Feithrin yn aros ar eu safleoedd presennol ond dan reolaeth y priod ysgolion cynradd a'u cyrff llywodraethu.

Pwy fydd yn cyflawni'r cynnig?

Yn amodol ar gymeradwyo'r cynnig, y Cyngor fyddai'n rheoli'r broses a bydd corff llywodraethu, staff, rhieni a disgyblion yr ysgolion yr effeithir arnynt yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o ddatblygu'r cynlluniau.

Sut fyddwch chi'n gwybod a ydych wedi cyflawni pwrpas y cynnig?

Byddai'r Cyngor wedi penderfynu ynglŷn â'r cynnig a byddai wedi ail-gyflunio darpariaeth feithrin ym Mhenarth.

Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo gydag addasiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol y mae wedi'u cael.

5. Pa dystiolaeth ydych chi'n ei defnyddio?

Ymgysylltu (â rhanddeiliaid mewnol ac allanol)

Fe ddilynodd y prosesau ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Fe ymgynghorodd y Cyngor ag ystod o ymgynghoreion statudol a nodir yn, ac sy'n ofynnol yn ôl y Cod.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol trwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb a ddosbarthwyd yn electronig i ymgynghoreion penodedig ac a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ar 20 Medi 2020.

Dosbarthwyd y dogfennau ymgynghori dwyieithog ar-lein; trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. Darparwyd copi electronig o'r dogfennau ar gyfer ymgynghoreion ynghyd â dolen i wefan Bro Morgannwg. Roedd copïau caled ar gael gan y Cyngor ar gais.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cafodd y Cyngor 238 o ymatebion erbyn y dyddiad cau, sef 5 Tachwedd 2021. Gofynnwyd i ymgynghoreion ddynodi a ydynt yn 'gefnogol', 'ddim yn gefnogol' neu â 'dim barn' wrth ystyried y tair elfen unigol o'r cynnig.

- Cynnig 1 - Uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode: Allan o 238 o ymatebion unigol, roedd 48 o ymgynghoreion yn gefnogol i'r cynnig, doedd 169 ddim yn gefnogol ac roedd 21 yn rhai â dim barn y naill ffordd na'r llall.
- Cynnig 2 - Uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan: Allan o 138 o ymatebion unigol, roedd 47 o ymgynghoreion yn gefnogol i'r cynnig, doedd 73

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

ddim yn gefnogol ac roedd 118 yn rhai â dim barn y naill ffordd na'r llall.

Gofynnwyd i ymgynghoreion am eu barn mewn ymateb i gwestiwn allweddol ynglŷn â'r naill gynnig a'r llall:

1) Ydych chi'n gefnogol i'r cynnig i uno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode?

2) Ydych chi'n gefnogol i'r cynnig i uno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan?

Roedd ymgynghoreion yn gallu ymateb i'r naill gwestiwn neu'r llall neu'r ddau gwestiwn trwy nodi Ydw, Nac ydw neu Dim barn y naill ffordd na'r llall.

Cafodd ymgynghoreion y cyfle i wneud sylwadau pellach hefyd.

Fel y dengys y tablau isod, doedd y rhan fwyaf o ymatebwyr **ddim** o blaid Cynnig 1.

Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (Cynnig 1)						
Cyfanswm yr ymatebion (unigol):	Cyfanswm yn gefnogol		Cyfanswm ddim yn gefnogol		Cyfanswm â dim barn	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
238	48	20%	169	71%	21	9%

Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (Cynnig 2)						
Cyfanswm yr ymatebion (unigol) (A):	Cyfanswm yn gefnogol		Cyfanswm ddim yn gefnogol		Cyfanswm â dim barn	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
238	47	20%	73	31%	118	50%

Cafodd ymatebwyr yr opsiwn i ateb cwestiynau monitro cydraddoldeb. Nid oedd rhaid i'r ymatebwyr ateb gan bod y cwestiynau'n ddewisol ac roedd opsiwn 'gwell gen i beidio ag ateb' wedi'i ddarparu. Caiff y canlyniadau eu crynhoi yn y tabl isod.

Beth yw eich rhywedd?							
Gwryw	42	Benyw	171	Anneuaidd	Amh.	Gwell gen i beidio â dweud	15
Faint yw eich oed?*							
25-34	41	35-44	100	45-54	50	55-74	30
A oes cyfyngiad ar eich gweithgareddau o ddydd i ddydd oherwydd cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, afiechyd neu anabledd?							

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Oes – cyfyngiad mawr	2	Oes – cyfyngiad bach	4	Nac oes	203	Gwell gen i beidio â dweud	16
Sut fyddech chi'n disgrifio eich grŵp ethnig?*							
Gwyn	194	Cymysg	5	Asiaidd	6	Gwell gen i beidio â dweud	18
Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau sut yr ydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?*							
Gwahanrywiol / strêr	195	Hoyw neu lesbiaidd	0	Deurywiol neu banrywiol	4	Gwell gen i beidio â dweud	20
Beth yw eich statws priodasol cyfreithiol?*							
Sengl	27	Priod	161	Wedi ysgaru neu'n weddw	12	Gwell gen i beidio â dweud	20
Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu ydych chi wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?							
Ydw	19	Nad ydw	179			Gwell gen i beidio â dweud	23

*mae'r tabl yn dangos yr opsiynau ag ymatebion yn unig; roedd opsiynau eraill ar gael i'w dewis.

Fe ymgynghorwyd ar adeg ffurfiannol ac roedd yr ymgynghoriad yn darparu ar gyfer ystyriaeth ac ymateb deallus. Mae'r graddfeydd amser ar gyfer yr ymgynghoriad yn cydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ac roeddent yn caniatáu 7 wythnos i ymgynghoreion ystyried a pharatoi ymateb.

Bydd nifer o themâu a grybwyllwyd fel rhan o'r broses yn cael sylw ac yn cael eu cynnwys mewn adroddiad ymgynghori a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar y cynnig. Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i gyhoeddi adroddiad ymgynghori ar y cynnig.

Rhoddodd yr ymgynghoriad y cyfle i ystod o ymgynghoreion a phobl leol ddysgu am y cynnig ac i'r Cyngor glywed barn yr holl rai â buddiant er mwyn iddynt allu cael eu cymryd i ystyriaeth cyn y gwneir penderfyniadau. Manylir ar nifer yr ymatebwyr a'u nodweddion yn yr adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Ymgynghori (â rhanddeiliaid mewnol ac allanol)

Gweler yr ymateb uchod (ymgysylltu)

Data ac ymchwil ar lefel genedlaethol

Mae peth wmbredd o wybodaeth ar gael mewn perthynas â phoblogaeth Bro Morgannwg. Gellir cael gafael ar yr wybodaeth hon o'r ffynonellau canlynol.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer awdurdodau lleol

<https://gov.wales/docs/statistics/2017/170323-household-projections-local-authorities-2014-based-cy.pdf>

Tueddiadau'r dyfodol - poblogaeth <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/tueddiadaur-dyfodol-2017-poblogaeth.pdf>

Amcangyfrifon o'r boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016 (rhes 392 cod W06000014)

<https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland/mid2017/ukmidyearestimates2017finalversion.xls>

Data ar nodweddion gwarchoddedig o Gyfrifiad 2011 (nid yw data o gyfrifiad 2021 wedi cael ei gyhoeddi eto)

<https://gov.wales/statistics-and-research/census-population/?lang=cy>

Mae newidiadau i ddarpariaeth ysgolion, ar ffurf cynigion trefniadaeth ysgolion statudol, yn aml yn angenrheidiol fel rhan o gynlluniau awdurdod lleol o fewn Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a'r Rhaglen Gyfalaf Addysg.

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn nodi gofynion ar gyfer ymgynghori ynghylch a chyhoeddi cynigion statudol ar gyfer newid ac mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddilyn y Cod. Mae'r Cod yn nodi gofynion ac yn darparu canllawiau mewn perthynas â chynigion ad-drefnu ysgolion a ddygir gerbron i ail-gyflunio'r ddarpariaeth ysgolion ac ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am benderfynu ynghylch cynigion. Mae'r broses ymgynghori'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Data ac ymchwil ar lefel leol

Mae'r Cyngor yn defnyddio data cyfredol ar ffurf data demograffig, data ar lefel ysgolion a data ar lefel disgyblion i oleuo'r cynnig. Defnyddiwyd adolygiad strategol o ddata i oleuo'r broses.

Mae'r pedwar lleoliad addysgol y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn ardal Penarth. Mae Penarth yn dref glan môr oludog ac mae pensaerniaeth Fictoriaidd ac Edwardaidd helaeth yn dal i fod mewn sawl rhan draddodiadol o'r dref.

Sefydlwyd Ysgol Feithrin Bute Cottage ym 1974 i ddarparu 40 o leoedd llawn-amser. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ger canol tref Penarth ac yn darparu addysg feithrin ar gyfer dalgyrch Ysgol Gynradd Evenlode.

Sefydlwyd Ysgol Gynradd Evenlode ym 1969 fel yr Ysgol Gynradd cynllun-agored gyntaf yn Ne Ddwyrain Cymru.

Sefydlwyd Ysgol Feithrin Cogan yn y 1970au i ddarparu addysg feithrin yn ardal Penarth.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Sefydlwyd Ysgol Gynradd Cogan ym 1884 ac mae wedi'i lleoli yn Cogan.

Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y gymuned yn barod ar gyfer yr ymgynghoriad. Roedd yr asesiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am lefelau'r boblogaeth leol ac amddifadedd materol.

Mae'r asesiad ar yr effaith ar y gymuned ar gael yma:

www.valeofglamorgan.gov.uk/nurseryprovisionpenarth

6. Pa mor gadarn yw'r dystiolaeth?

A yw'n dangos beth fydd yr effaith (yn effaith gadarnhaol a negyddol)?

Mae'r cynnig hwn yn rhoi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hybu cydraddoldeb, a meithrin cysylltiadau da fel rhan annatod o'r broses benderfynu. Bydd effaith y cynnig yn gadarnhaol o ran rheoli'r galw am ddarpariaeth feithrin ym Mhenarth.

Beth yw'r bylchau?

Ceir gwybodaeth gyfyngedig o fewn y Gyfarwyddiaeth am nodweddion gwarchoddedig staff a chyrrff llywodraethu / pwyllgorau rheoli'r ysgolion yr effeithir arnynt; fodd bynnag, bwriedir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol neu niwtral ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig a fydd yn mynd i mewn i'r adeilad newydd. Gan bod y staff a'r corff llywodraethu'n fach o ran nifer, gall y data hwn hefyd ddatgelu pwy yw unigolion a gwybodaeth bersonol a ddelir amdanynt hwy. Fodd bynnag, fel rhan o'r ymgynghoriad rhoddwyd sawl cyfle trwy amrywiaeth o ddulliau cyfrinachol i staff a chyrrff llywodraethu fynegi pryderon mewn perthynas â'u hamgylchiadau personol yn ogystal ag unrhyw bryderon ehangach. Ni chodwyd unrhyw faterion yn ystod yr ymgynghoriad nac wedyn yr ystyriwyd y byddent yn cael effaith anffafriol ar nodweddion gwarchoddedig staff neu aelodau o gyrrff llywodraethu. O ganlyniad nid yw hyn wedi'i gynnwys yn yr asesiad hwn.

Byddai'r Cyngor yn sicrhau bod cyrrff llywodraethu'r ysgolion yr effeithir arnynt yn cael eu cynorthwyo i sicrhau na fyddai effaith anffafriol ar nodweddion gwarchoddedig unrhyw staff a llywodraethwyr o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Beth fyddwch chi'n ei wneud ynglŷn â hyn?

Byddai ystyriaeth i nodweddion gwarchoddedig disgyblion, staff ac aelodau o gyrrff llywodraethu'n cael ei hadlewyrchu yn natblygiad y strwythur llywodraethu.

Darperir gwybodaeth i'r ysgol gan rieni a gweithwyr proffesiynol wrth gofrestru'r plentyn yn yr ysgol. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i sicrhau bod yr ysgol yn gallu diwallu eu hanghenion.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Pa ddata monitro fyddwch chi'n ei gasglu?

Caiff data'r Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ei gasglu'n flynyddol, ac fe gesglir gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig trwy'r broses hon.

Pa mor aml fyddwch chi'n dadansoddi ac yn adrodd ar hyn?

Mae'r Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn cael ei gwblhau'n flynyddol. Mae'r Cyngor ac ysgolion yn defnyddio'r data i ddatblygu a monitro polisi a pherfformiad ym Mro Morgannwg. Bydd effeithiolrwydd y cynnig hwn yn cael ei fonitro trwy gorff llywodraethu'r ysgol, y Cyngor, Consortiwm Canol De Cymru ac Estyn.

Ble fyddwch chi'n cyhoeddi data ac adroddiadau monitro?

Cyhoeddir data o'r Cyfrifiad Ysgol gan Lywodraeth Cymru ar wefan StatsCymru ar gyfer ardal pob awdurdod lleol.

Byddai safonau yn yr ysgolion yn cael eu monitro'n barhaus ar draws pob grŵp blwyddyn gan y cyrff llywodraethu, yr Awdurdod Lleol a Chonsortiwm Canol De Cymru a thrwy Estyn.

Caiff safonau mewn ysgolion eu monitro'n flynyddol gan y Consortiwm ac adroddir yn ôl ar hynny wrth yr Awdurdod Lleol. Bydd safonau ar gyfer plant y nodwyd fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, ynghyd â'r plant hynny sy'n cael cymorth ar ffurf gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy hefyd yn rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar yr Ysgol fel rhan o'r Drefn Gategoreiddio Genedlaethol a gwblheir gan Gonsortiwm Canol De Cymru mewn partneriaeth gyda'r ysgol.

7. [Effaith](#)

A oes effaith?

Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ganfyddedig ar y nodweddion gwarchoddedig.

Caiff yr effeithiau eu nodi isod yn yr adran berthnasol.

Os nad oes effaith, beth yw'r cyfiawnhad dros feddwl hyn? Darparwch dystiolaeth.

Caiff dystiolaeth ei hasesu trwy'r broses ymgynghori a thrwy ddata ar yr ysgolion a disgyblion.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Os yw'n debygol y bydd effaith, beth ydyw?

Oedran

Yn ôl y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2021 roedd 84 o ddisgyblion rhan-amser ar y gofrestr yn Ysgol Feithrin Bute Cottage, 62 o ddisgyblion rhan-amser ar y gofrestr yn Ysgol Feithrin Cogan, 414 o ddisgyblion ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Evenlode, a 206 o ddisgyblion ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Cogan.

Cynigir uno Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Feithrin Bute Cottage, gan arwain at ddarparu 96 o leoedd meithrin rhan-amser yn Ysgol Gynradd Evenlode (ar safle presennol Ysgol Feithrin Bute Cottage). Cynigir uno Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Feithrin Cogan hefyd, gan arwain at ddarparu 96 o leoedd meithrin rhan-amser yn Ysgol Gynradd Cogan (ar safle presennol Ysgol Feithrin Cogan). Byddai hyn yn datblygu parhad a dilyniant yn nysgu'r plant o deirblwydd oed. Byddai hyn yn sicrhau bod dull cyson o gynllunio a darparu'r cyfnod sylfaen (meithrin i flwyddyn dau) ac yn lleihau i'r eithaf y potensial ar gyfer tarfu yn ystod y broses bontio o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd.

Pe baent yn cael eu cymeradwyo, byddai'r cynigion hyn yn sicrhau bod yr ysgolion yn gallu parhau i ddarparu addysg o ansawdd da. Byddai uno'n galluogi'r cryfderau sy'n bresennol yn yr ysgolion meithrin a chynradd sydd ar wahân ar hyn o bryd i gael eu cyfuno i ddatblygu darpariaeth o ansawdd da a honno'n gweithredu ar draws safleoedd ar wahân. Byddai hyn yn galluogi gweledigaeth ac arweinyddiaeth gyffredin gan fynd ati'n llawn i sefydlu cwricwlwm cyson a chydlynol ar draws y cyfnod cynradd.

Ni ddynododd unrhyw ymatebwyr y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith anffafriol ar eu statws yn hyn o beth.

Am y rhesymau a nodir uchod, gan gynnwys polisiau a gweledigaeth sy'n gyffredin ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar, byddai'r cynigion hyn yn darparu effaith **gadarnhaol** ar gyfer plant.

Fodd bynnag, nodir nad yw adran 149, i'r graddau y mae'n ymwneud ag oedran, yn berthnasol i arfer swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu addysg ar gyfer disgyblion mewn ysgolion (gweler paragraff 1, Atodlen 18, Deddf 2010).

Anabledd

Caiff y data a ddelir ar ddisgyblion ei ddisgrifio yn ôl Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) nid anabledd.

Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth am anghenion disgyblion o CYBLD mis Ionawr 2021.

Amlinelliad o ADY ar gyfer disgyblion yn yr ysgolion cynradd a meithrin a chymharu â'r lefel ranbarthol (cynradd) a chenedlaethol

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Math	Ysgol Gynradd Evenlode	Ysgol Feithrin Bute Cottage	Ysgol Gynradd Cogan	Ysgol Feithrin Cogan	Bro Morgannwg (Cynradd)	Cymru (pob un*)
Gweithredu gan yr Ysgol	0%	0%	12%	3%	6%	12%
Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	3%	1%	8%	6%	5%	7.4%
Datganiad	0%	0%	1%	2%	1%	2.8%

Fel y dengys y tabl uchod, mae gan Ysgol Gynradd Cogan niferoedd uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ar y gofrestr, mae gan Ysgol Feithrin Cogan niferoedd uwch na chyfartaledd y Fro o ddisgyblion Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ar y gofrestr, ac mae gan Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode niferoedd is na'r cyfartaledd ar draws pob mesur.

Nid oes gan Ysgol Feithrin Bute Cottage, Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Feithrin Cogan ganolfan adnoddau arbenigol wedi'i hatodi wrthynt; rhoddir cymorth arbenigol i blant ag anghenion dynodedig mewn lleoliad cynhwysol o fewn yr ysgol.

Mae Ysgol Gynradd Cogan yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgyblion ag anawsterau gyda'u clyw trwy Ganolfan Adnoddau Clyw. Mae'r tîm yn cynnwys athrawes arbenigol a staff cymorth sy'n helpu plant gyda byddardod cymedrol neu ddwys. Mae'r plant yn cael cymorth arbenigol ac maent yn cael eu hintegreiddio'n llawn yng ngorchwyllion beunyddiol yr ysgol. Fel a nodwyd yn eu harolygiad diweddaraf gan Estyn, *'Mae disgyblion o'r ganolfan adnoddau'n ffynnu ochr yn ochr â disgyblion eraill. Maent yn gwneud cynnydd da ac, yn aml, rhagorol o'u manau cychwyn unigol. Mae staff arbenigol yn gweithio'n hynod effeithiol gyda'u cydweithwyr prif-ffrwd a chydag ystod o wasanaethau arbenigol i sicrhau darpariaeth eithriadol ar gyfer y disgyblion hyn.'*

Mae'r lleoliadau addysgol yn darparu cwricwlwm pwrpasol ac wedi'i dargedu sy'n ymateb i alluoedd y plentyn unigol ac yn sicrhau bod yr holl blant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn cael eu hintegreiddio ar draws pob maes o fewn y cwricwlwm.

Ni fyddai'r ddarpariaeth ADY gyfredol yn cael ei newid o ganlyniad i'r cynigion hyn. Fodd bynnag, gallai anghenion gael eu hadnabod ar adeg gynharach a gallai anghenion disgyblion gael eu monitro o fewn un lleoliad data i sicrhau parhad.

Ni nododd unrhyw ymatebwyr y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith anffafriol ar eu statws yn hyn o beth.

Felly bydd y cynigion yn darparu effaith **gadarnhaol** i'r disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach sy'n ymweld â'r ysgol a nodwyd o fewn y grŵp gwarchodedig hwn gan y byddant yn parhau i gael mynediad at y ddarpariaeth arbenigol, ac ni fyddai'r naill na'r llall o'r cynigion hyn yn cael effaith negyddol ar hyn.

Ailbennu rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth o ran rhywedd

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nid oes unrhyw gynlluniau i newid unrhyw bolisïau mewn perthynas ag ailbennu rhywedd na hunaniaeth o ran rhywedd yn seiliedig ar y cynigion hyn.

Ni ddynododd unrhyw ymatebwyr y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith anffafriol ar eu hunaniaeth o ran rhywedd.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth gyfredol, byddai'r cynigion hyn yn cael effaith **niwtral** ar y grŵp gwarchodedig hwn.

Priodas a phartneriaeth sifil (gwahaniaethu yn unig)

Ni nododd unrhyw ymatebwyr y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith anffafriol ar eu statws yn hyn o beth.

Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal ar lefel y gyfarwyddiaeth ar gyfer staff a llywodraethwyr; fodd bynnag, bwriedir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol neu niwtral ar y rhai â nodweddion gwarchodedig a fydd yn mynd i mewn i'r adeilad newydd. Mae disgyblion yn yr Ysgol Islaw'r Oedran priodi cyfreithlon. Byddai staff yn parhau i gael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati er mwyn cefnogi'r staff yn yr ysgol.

Ni nododd unrhyw ymatebwyr y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith anffafriol ar eu statws yn hyn o beth.

Yn seiliedig ar y polisïau sydd yn eu lle ac na fyddent yn newid o ganlyniad i'r naill gynnig na'r llall, byddai'r cynigion hyn yn cael effaith **niwtral** ar y grŵp gwarchodedig hwn.

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Ystyrir na fydd effaith negyddol ar ddisgyblion yn y grŵp gwarchodedig hwn gan mai bach iawn yw'r tebygolrwydd y bydd disgyblion yn perthyn i'r grŵp gwarchodedig hwn oherwydd ystod oedran yr ysgol. Byddai'r ddarpariaeth addysg ar gyfer unrhyw ddisgybl a fyddai o fewn y grŵp gwarchodedig hwn yn parhau'n ddigymffwrdd o ganlyniad i'r cynnig.

Byddai staff sydd ar absenoldeb mamolaeth neu'n feichiog ar hyn o bryd ar adeg y symudiad arfaethedig yn cael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldebau 2010.

Ni ddynododd unrhyw ymatebwyr y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith anffafriol ar eu statws yn hyn o beth; fodd bynnag, fe gyfeiriwyd at yr effaith, yn gadarnhaol a negyddol, ar blant yn y dyfodol mewn nifer fach o ymatebion.

Yn seiliedig ar y polisïau sydd yn eu lle ac na fyddent yn newid o ganlyniad i'r naill gynnig na'r llall, byddai'r cynigion hyn yn cael effaith **niwtral** ar bobl yn y grŵp gwarchodedig hwn.

Hil

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gwyn – Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon Prydeinig yw'r ethnigrwydd mwyaf cyffredin yn y lleoliadau addysgol ar hyn o bryd (gweler y tabl). Mae'r ganran yn is yn yr holl leoliadau, ac eithrio Ysgol Feithrin Bute Cottage, na'r cyfartaledd (90% Gwyn Prydeinig) ar draws poblogaeth ehangach ysgolion y Fro.

Ysgolion	Cyfanswm y Disgyblion	Cyfanswm y disgyblion sy'n nodi eu bod yn Wyn (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon Prydeinig)	Cyfanswm y disgyblion sy'n nodi eu bod o Leiafrif Ethnig		
Ysgol Feithrin Bute Cottage	82	74	90.2%	8	9.7%
Ysgol Gynradd Evenlode	421	361	85.7%	60	14.2%
Ysgol Feithrin Cogan	63	45	71.4%	18	28.5%
Ysgol Gynradd Cogan	209	168	80.3%	41	19.6%

Mae'n annhebygol y byddai'r cynigion yn newid proffil ethnig yr ysgolion gan nad oes unrhyw newidiadau i'r dalgylchoedd.

Byddai'r holl staff, disgyblion a llywodraethwyr yn parhau i gael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati er mwyn cefnogi'r staff yn yr ysgol.

Ni nododd unrhyw ymatebwyr y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith anffafriol ar eu statws yn hyn o beth.

Yn seiliedig ar y polisiâu sydd yn eu lle ac na fyddent yn newid o ganlyniad i'r naill gynig na'r llall a'r nifer fach iawn o ddisgyblion yn y categori hwn, byddai'r cynigion hyn yn cael effaith **niwtral** ar bobl yn y grŵp gwarchodedig hwn.

Crefydd a chred

Byddai staff yn parhau i gael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati er mwyn cefnogi'r staff yn yr ysgol.

Ni fyddai parch tuag at yr holl ddaliadau crefyddol ac anghrefyddol yn newid oherwydd y cynnig hwn. Mae'r ysgol yn ysgol gymunedol ac ni fyddai'r agwedd ar y cwricwlwm sy'n ymwneud â chrefydd a chred yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Ni nododd unrhyw ymatebwyr y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith anffafriol ar eu statws yn hyn o beth.

Yn seiliedig ar y polisïau sydd yn eu lle ac na fyddent yn newid o ganlyniad i'r cynigion, byddai'r cynigion hyn yn cael effaith **niwtral** ar bobl yn y grŵp gwarchoddedig hwn.

Rhyw

Daw'r data diweddaraf sy'n cynnwys gwybodaeth am rywedd disgyblion o Fy Ysgol Leol, 2021 (gweler y tabl isod).

Ysgolion	Cyfanswm y Disgyblion	Cyfanswm y disgyblion benywaidd		Cyfanswm y disgyblion gwrywaidd	
Ysgol Feithrin Bute Cottage	82	47	57.3%	35	42.6%
Ysgol Gynradd Evenlode	421	205	48.6%	216	51.3%
Ysgol Feithrin Cogan	63	29	46%	34	54%
Ysgol Gynradd Cogan	209	111	53.1%	98	46.8%

Byddai plant o'r ddau ryw'n cael eu trin a'u haddysgu'n gyfartal yn yr ysgolion. Ni fyddai unrhyw ddulliau addysgu na chwricwla gwahanol ar gyfer y naill ryw na'r llall. Byddai'r ysgol yn amcanu at leihau - hyd y gellir - yr arfer o wahanu disgyblion a myfyrwyr yn ôl y rhywiau. Byddai disgyblion yn parhau i gael eu cefnogi i'w galluogi i gael mynediad cyfartal at Add Gorff a lle caiff gwersi eu gwahanu yn ôl rhyw/rhywedd byddent yn cael eu galluogi i gyfranogi yn y gweithgaredd sy'n cyfateb i'w hunaniaeth o ran rhywedd os mai dyma'r hyn y maent yn gofyn amdano. Ni fyddai'r agwedd ar reoli'r cwricwlwm sy'n ymwneud ag unrhyw fwch a ganfuwyd o ran cyrhaeddiad sy'n seiliedig ar y rhywiau yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Byddai staff yn parhau i gael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati er mwyn cefnogi'r staff yn yr ysgol. Byddai'r cynnig hwn yn arwain at gynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth yn yr ysgolion gan y byddai hyfforddiant ychwanegol yn ofynnol i ddiwallu anghenion arbenigol disgyblion. Gallai hyn arwain at ragor o gyfleoedd cyflogaeth i bobl o'r naill ryw neu'r llall.

Ni nododd unrhyw ymatebwyr y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith anffafriol ar eu statws yn hyn o beth.

Yn seiliedig ar y polisïau sydd yn eu lle ac na fyddent yn newid o ganlyniad i'r naill gynnig

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

na'r llall, byddai'r cynigion hyn yn cael effaith **niwtral** ar bobl yn y grŵp gwarchoddedig hwn.

Cyfeiriadedd rhywiol

Mae cynwysoldeb a pharch tuag at eraill yn elfen gynhenid o'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae egwyddorion arolygu ysgolion fel y'u disgrifir yn y 'Fframwaith ar gyfer Arolygu Ysgolion', Medi 2015, yn nodi y bydd yr arolygiad yn canolbwyntio ar anghenion disgyblion a rhieni trwy werthuso i ba raddau y mae ysgolion yn darparu amgylchedd cynhwysol sy'n diwallu anghenion yr holl ddisgyblion ni waeth beth fo'u hoedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae Llawlyfr Arolygu Ysgolion Estyn hefyd yn nodi sut y bydd arolygiad yn gwerthuso pa mor dda y mae disgyblion unigol yn cael budd o'r ysgol ac yn nodi y gall fod yn berthnasol rhoi sylw arbennig i'r rhai â nodweddion gwarchoddedig, gan felly gynnwys disgyblion trawsryweddol. O dan ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol bydd Estyn yn chwilio am dystiolaeth lle mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth o amrywiaeth a pharch tuag at amrywiaeth mewn perthynas, er enghraifft, â rhywedd, hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd.

Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried mathau o fwlio, a chyfraddau a phatrymau bwlio ac effeithiolrwydd camau'r ysgol i atal ac ymdrin â phob math o fwlio ac aflonyddu – mae hyn yn cynnwys seiberfwlio a bwlio seiliedig-ar-ragfarn sy'n gysylltiedig ag angen addysgol arbennig, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hil, crefydd a chred, ailbennu rhywedd neu anabledd.

Byddai staff yn parhau i gael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati er mwyn cefnogi'r staff yn yr ysgol.

Ni nododd unrhyw ymatebwyr y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith anffafriol ar eu statws yn hyn o beth.

Yn seiliedig ar y polisiau sydd yn eu lle ac na fyddent yn newid o ganlyniad i'r naill gynig na'r llall, byddai'r cynigion hyn yn cael effaith **niwtral** ar bobl yn y grŵp gwarchoddedig hwn.

Y Gymraeg

Mae Rhaglen y Cyngor ar gyfer Buddsoddi mewn Ysgolion yn adlewyrchu ymrwymadau'r Cyngor yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), sy'n amcanu at sicrhau bod y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn gallu cael ei ateb yn y tymor hir. Mae'n gyson â strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu at ei tharged uchelgeisiol, sef miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae Ysgol Pen-Y-Garth yn gwasanaethu fel y ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer ardal Penarth. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 420 o ddisgyblion cynradd a 76 o leoedd meithrin rhan-amser.

Mae Ysgol Feithrin Bute Cottage yn ymrwymedig i helpu disgyblion i ddatblygu eu haddysg iaith Gymraeg o oedran gynnar. Mae hyn yn cynnwys trwy fasgot Cymraeg o'r

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

enw Dewi Draig sy'n helpu'r plant i ddeall a defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg. Mae Dewi hefyd yn helpu disgyblion i ddysgu am ddiwylliant Cymru a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn un o ddinasyddion Cymru. Mae gan yr Ysgol Feithrin grysau t Helpwr Heddiw a roddir i'r disgyblion i'w gwisgo fel gwobr pan gânt eu clywed yn defnyddio geiriau Cymraeg yn yr ysgol feithrin. Mae'r ysgol feithrin yn gweithio tuag at ennill Gwobr Efydd y "Siarter Iaith".

Mae Ysgol Feithrin Cogan yn ymrwymedig i helpu disgyblion i ddatblygu eu haddysg iaith Gymraeg o oedran cynnar. Datblygir sgiliau trwy gyfathrebu mewn ystod o weithgareddau pleserus, ymarferol wedi'u cynllunio a chan ddefnyddio ystod o ddeunyddiau symbylu sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol disgyblion ac yn eu cynyddu. Mae disgyblion yn gwrando ar ystod o ddeunyddiau ysgogi, gan gynnwys deunyddiau clyweledol a meddalwedd rhyngweithiol TGCh.

Er bod Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn addysgu trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, mae'r safonau uchel a gyflawnir yn y Gymraeg yn cyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i hybu siaradwyr dwyieithog.

Byddai staff yn parhau i gael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati er mwyn cefnogi'r staff yn yr ysgolion.

Ni nododd unrhyw ymatebwyr y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith affatriol ar eu statws yn hyn o beth.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth gyfredol, byddai'r cynigion hyn yn cael effaith **niwtral** ar y grŵp gwarchoddedig hwn.

Hawliau dynol

Rhoddwyd ystyriaeth i ddogfen UNICEF, A Human Rights-Based Approach to Education For All, fel rhan o ddatblygu'r ymgynghoriad hwn. Mae'r ddogfen hon yn cynghori bod Pennod 2 yn cyflwyno fframwaith cysyniadol ar gyfer y dull seiliedig-ar-hawliau o ddarparu addysg sy'n ymgorffori tri dimensiwn sydd wedi'u cydblythu â'i gilydd ac sy'n rhyngddibynol. Mae'n haeru na all hawliau dynol mewn perthynas ag addysg gael eu gwireddu oni bai a nes y rhoddir sylw i bob un o'r tri dimensiwn:

- Yr hawl i fynediad at addysg – hawl pob plentyn i addysg ar sail cyfle cyfartal a heb wahaniaethu ar unrhyw sail. I gyrraedd y nod hwn, rhaid i addysg fod ar gael i'r holl blant, yn hygyrch iddynt a'u cynnwys i gyd.
- Yr hawl i addysg o ansawdd – hawl pob plentyn i addysg o ansawdd sy'n ei alluogi ef neu'n ei galluogi hi i gyflawni ei b/photensial, gwireddu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a datblygu sgiliau bywyd. I gyrraedd y nod hwn, mae angen i addysg ganolbwyntio ar y plentyn, bod yn berthnasol a chofleidio cwricwlwm eang, a rhaid darparu adnoddau priodol ar ei chyfer a'i monitro'n briodol.
- Yr hawl i barch o fewn yr amgylchedd dysgu – hawl pob plentyn i barch tuag at ei (h)urddas cynhennid a bod ei hawliau dynol cyffredinol yn cael eu parchu o fewn y system addysg. I gyrraedd y nod hwn, rhaid darparu addysg mewn

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

ffordd sy'n gyson â hawliau dynol, gan gynnwys parch cyfartal tuag at bob plentyn, cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad ystyrllon, rhyddid rhag pob math o drais, a pharch tuag at iaith, diwylliant a chrefydd.

Cyflwynwyd y cynnig hwn er mwyn mynd i'r afael â'r hawl i fynediad at addysg, yr hawl i addysg o ansawdd a'r hawl i barch o fewn yr amgylchedd dysgu ar gyfer yr holl ddisgyblion ym Mro Morgannwg.

Byddai manteision bwriadedig y cynnig hwn yn darparu:

- Un gyfundrefn llywodraethu ac atebolrwydd gydag un pennaeth a chorff llywodraethu â chyfrifoldeb am bob cyfnod addysg yn y naill ysgol gynradd a'r llall.
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol trwy fod yn rhan o ysgol gynradd sy'n addysgu ar draws pob cyfnod mewn addysg gynradd.
- Un set o bolisiâu ar draws pob grŵp blwyddyn, gan ymgorffori arfer gorau o'r ysgolion unigol.
- Un weledigaeth, strategaeth ac ethos ar draws pob cyfnod.
- Creu arbedion refeniw sy'n gysylltiedig â chostau rhedeg uwch ar gyfer ysgolion meithrin annibynnol a fyddai'n rhyddhau cyllid ychwanegol i mewn i'r fformiwla cyllid ysgolion ar y cyfan.
- Cyfleoedd i gyflawni arbedion effeithlonrwydd trwy ddarbodion maint a chaffael cydgysylltiedig.
- Cyfathrebu wedi'i symleiddio rhwng rhieni a staff gydag un pwynt cyswllt trwy bob cyfnod mewn addysg gynradd.

Ni nododd unrhyw ymatebwyr y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith affafriol ar eu statws yn hyn o beth. Yn seiliedig ar y dystiolaeth gyfredol, byddai'r cynigion hyn yn cael effaith **gadarnhaol** ar y grŵp gwarchoddedig hwn.

Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Nod y ddyletswydd ar y cyfan yw cyflawni deilliannau gwell i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Dechreuodd y ddyletswydd, sy'n berthnasol i benderfyniadau strategol, ar 31 Mawrth 2021. Mae ystyriaethau economaidd-gymdeithasol wedi cael eu hasesu'n ddiweddarach a chaiff y canlyniadau eu dogfennu isod. At ddibenion yr asesiad hwn, mae dangosyddion economaidd-gymdeithasol yn cynnwys addysg, economaidd, cyflogaeth, iechyd a lles, a chludiant hygyrch.

Addysg

Pe baent yn cael eu rhoi ar waith, canfuwyd y byddai'r cynigion yn dwyn y manteision

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

canlynol mewn perthynas â gwella deilliannau addysgol:

- Un gyfundrefn llywodraethu ac atebolrwydd gydag un pennaeth a chorff llywodraethu â chyfrifoldeb am bob cyfnod addysg yn y naill ysgol gynradd a'r llall.
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol trwy fod yn rhan o ysgol gynradd sy'n addysgu ar draws pob cyfnod mewn addysg gynradd.
- Un set o bolisiau ar draws pob grŵp blwyddyn, gan ymgorffori arfer gorau o'r ysgolion unigol.
- Un weledigaeth, strategaeth ac ethos ar draws pob cyfnod.
- Cyfathrebu wedi'i symleiddio rhwng rhieni a staff gydag un pwynt cyswllt trwy bob cyfnod mewn addysg gynradd.

Mae'r cynigion yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol gan na chynigir unrhyw newid i'r dalgylch presennol.

Nid oes darpariaeth feithrin o gwbl yn Ysgol Gynradd Evenlode nac Ysgol Gynradd Cogan ar hyn o bryd. Gall plant gael darpariaeth feithrin yn unedau meithrin ysgolion eraill neu mewn darparwr cofrestredig.

Byddai **Cynnig 1** yn arwain at greu 96 o leoedd meithrin cyfrwng Saesneg rhan-amser yn Ysgol Gynradd Evenlode. Mae hyn yr un fath ag sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Feithrin Bute Cottage. Mae Ysgol Feithrin Bute Cottage yn gweithio gyda meithrinfeydd preifat lleol (Meithrinfa St Aubin a Meithrinfa Hazelhurst) i ddarparu 'gofal cofleidiol'. Ni fyddai'r cynnig yn effeithio ar y trefniant hwn.

Byddai **Cynnig 2** yn arwain at greu 96 o leoedd meithrin cyfrwng Saesneg rhan-amser yn Ysgol Gynradd. Mae hyn yn 4 lle meithrin rhan-amser yn llai nag sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Feithrin Cogan. Fodd bynnag, mae hyn yn ddigon i ateb y galw yn yr ardal leol (gweler tabl 2 yn yr adran derbyniadau isod).

Roedd unrhyw ddarparwyr cofrestredig lleol yn gallu ymateb i'r ymgynghoriad. Trefnwyd fod y ddogfen ymgynghori ar gael i sefydliadau gofal plant a blynyddoedd cynnar eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a darparwyd yn y trydydd sector. Cafodd unrhyw adborth ei ystyried fel rhan o'r adroddiad ymgynghori.

Economaidd

Mae'r pedwar lleoliad addysgol y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn ardal Penarth. Mae Penarth yn dref glan môr oludog ac mae pensaernïaeth Fictoriaidd ac Edwardaidd helaeth yn dal i fod mewn sawl rhan draddodiadol o'r dref.

Mae Ysgol Feithrin Bute Cottage wedi'i lleoli yn ward Awstin Sant 3 ym Mhenarth. Mae gan ward Awstin Sant ar y cyfan boblogaeth o 7,351 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019). 6

Mae Ysgol Gynradd Evenlode wedi'i lleoli yn ward Plymouth 2 ym Mhenarth. Mae gan ward Plymouth ar y cyfan boblogaeth o 5,786 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019).

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan wedi'u lleoli yn ward Cornerswell 2 ym Mhenarth. Mae gan ward Cornerswell ar y cyfan boblogaeth o 5,366 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019).

Mae gan y wardiau lefelau isel o amddifadedd; fodd bynnag, maent o fewn y 50% o wardiau lleiaf amddifadus yng Nghymru.

Mae'r ysgolion yn derbyn disgyblion o ardaloedd ehangach â statws economaidd-gymdeithasol mwy amrywiol, ac ni fyddai hyn yn newid o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Cyflogaeth

Byddai Cyngor Bro Morgannwg yn rhoi cymorth llawn i'r llywodraethwyr, pennaeth a staff yn yr ysgol gydag unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Mae gan yr ysgol fynediad at bolisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor, gan gynnwys polisiau recriwtio. Mae'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn cydweithio'n agos gyda llywodraethwyr i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd a chlir gyda'r holl gyflogaeth yn digwydd ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â newid yn lleoliad eu gweithle.

Byddai staff Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yn trosglwyddo i fod dan drefniadau llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan yn y drefn honno.

Cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan fyddai'n gyfrifol am ddiwygio'u strwythurau staffio i adlewyrchu'r ffaith bod y cyfnod meithrin yn cael ei ychwanegu. Ni ragwelir y byddai unrhyw achosion o golli swyddi'n orfodol o ganlyniad i'r cynigion hyn. Fodd bynnag, byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i drefniadau staffio'n amodol ar ymgynghori â staff a'r undebau llafur perthnasol lle y bo'n angenrheidiol.

Iechyd a Lles

Mae gan yr ysgolion ethos hynod gadarnhaol a chynhwysol, sy'n helpu disgyblion i ddatblygu hunan-fri a thyfu mewn hyder.

Cludiant hygyrch

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n byw fwy na phellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf. Yn unol â 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008'. 24

Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer plant o oedran meithrin ac eithrio'r plant hynny sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). O dan y cynigion hyn nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i ac o ysgolion. Gan y byddai'r lleoedd meithrin yn aros ar eu safleoedd presennol gyda'u capasiti presennol, ni ragwelir unrhyw oblygiadau ar gyfer cludiant a threfniadau teithio gan ddysgwyr.

Ni nododd unrhyw ymatebwyr y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith anffafriol ar eu statws economaidd-gymdeithasol yn hyn o beth. Yn seiliedig ar y dystiolaeth gyfredol a nodir

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

uchod, byddai'r cynigion hyn yn cael effaith **niwtral** ar ddisgyblion o deuluoedd sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Sut wyddoch chi?

Eglurwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchoddedig a nodir uchod.

Darperir a dadansoddir data trwy ddata'r Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion a gesglir ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio data cyfredol ar ffurf data demograffig, data ar lefel ysgolion a data ar lefel disgyblion i oleuo'r cynnig. Byddai staff hefyd yn parhau i gael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati er mwyn cefnogi'r staff yn yr ysgol.

Beth ellir ei wneud i hybu effaith gadarnhaol?

Eglurwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchoddedig a nodir uchod.

Bydd argaeledd yr ysgol, ei manteision a'r cyfleusterau sydd ar gael yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor a thrwy Arweiniad y Cyngor i'r Trefniadau Derbyn i Ysgolion i rieni eu hystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch mynegi dewis o ran lle i ddisgybl. Mae rhoi sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal yn cynnwys rhoi sylw dyladwy i'r angen i ddileu neu leihau i'r eithaf unrhyw anfantaision a ddiweddefir ganddynt. Felly byddai sylw dyladwy'n cael ei roi i'r angen i gymryd camau i ddiwallu anghenion y bobl hynny y mae eu hanghenion yn wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn meddu ar y nodwedd honno, ac annog y rhai sydd â nodwedd warchoddedig i gyfranogi mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r camau sy'n rhan o ddiwallu anghenion pobl anabl yn cynnwys camau i ystyried anabledau'r bobl hynny a fyddai'n allweddol i ddyluniad yr adeilad newydd. Mae rhoi sylw dyladwy i 'feithrin cysylltiadau da' yn cynnwys rhoi sylw dyladwy i'r angen i ymdrin â rhagfarn a hybu dealltwriaeth. Mae hon yn agwedd bwysig ar ddarparu'r cwricwlwm ac ni fyddai'n newid o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Cydnabyddir y gall cydymffurfio â'r ddyletswydd olygu trin rhai pobl yn well nag eraill, hyd y caniateir hynny dan y ddeddfwriaeth wahaniaethu.

Oedran

Gan y byddai'r ysgol yn parhau i ddarparu digon o leoedd ar gyfer disgyblion meithrin dan set gyffredin a chyson o bolisïau, byddai'r cynigion yn darparu effaith **gadarnhaol** ar y maen prawf hwn.

Anabled

Ni fyddai'r ddarpariaeth ADY gyfredol yn cael ei newid o ganlyniad i'r cynigion hyn. Fodd bynnag, gallai anghenion gael eu hadnabod ar adeg gynharach a gallai anghenion disgyblion gael eu monitro o fewn un lleoliad data i sicrhau parhad. Byddai'r cynigion yn darparu effaith **gadarnhaol** ar y maen prawf hwn.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Ailbennu rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth o ran rhywedd

Byddai'r holl blant yn cael eu cynorthwyo i gael addysg o ansawdd da pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus ni waeth beth fo'u hunaniaeth o ran rhywedd. Mae cynwysoldeb a pharch tuag at eraill yn elfen gynhenid o'r cwricwlwm cenedlaethol.

Priodas a phartneriaeth sifil

Byddai staff yn parhau i gael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati er mwyn cefnogi'r staff yn yr ysgol.

Mae cynwysoldeb a pharch tuag at eraill yn elfen gynhenid o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hybu'r gofyniad hwn trwy ei weithgarwch monitro a herio a gyflawnir gan y gwasanaeth gwella ysgolion a'r Adran Adnoddau Dynol.

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Byddai staff parhau i gael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati er mwyn cefnogi'r staff yn yr ysgol.

Mae cynwysoldeb a pharch tuag at eraill yn elfen gynhenid o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hybu'r gofyniad hwn trwy ei weithgarwch monitro a herio a gyflawnir gan y gwasanaeth gwella ysgolion a'r Adran Adnoddau Dynol.

Hil

Mae cynwysoldeb a pharch tuag at eraill yn elfen gynhenid o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hybu'r gofyniad hwn trwy ei weithgarwch monitro a herio a gyflawnir gan y gwasanaeth gwella ysgolion a'r Adran Adnoddau Dynol.

Crefydd a Chred

Mae cynwysoldeb a pharch tuag at eraill yn elfen gynhenid o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hybu'r gofyniad hwn trwy ei weithgarwch monitro a herio a gyflawnir gan y gwasanaeth gwella ysgolion a'r Adran Adnoddau Dynol.

Rhyw

Byddai plant o'r ddau ryw'n cael eu trin a'u haddysgu'n gyfartal yn adeilad newydd yr ysgol. Ni fyddai unrhyw ddulliau addysgu na chwricwla gwahanol ar gyfer y naill ryw na'r llall. Mae cynwysoldeb a pharch tuag at eraill yn elfen gynhenid o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hybu'r gofyniad hwn trwy ei weithgarwch monitro a herio a gyflawnir gan y gwasanaeth gwella ysgolion a'r Adran Adnoddau Dynol.

Cyfeiriadedd Rhywiol

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Byddai staff parhau i gael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati er mwyn cefnogi'r staff yn yr ysgol.

Mae cynwysoldeb a pharch tuag at eraill yn elfen gynhenid o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hybu'r gofyniad hwn trwy ei weithgarwch monitro a herio a gyflawnir gan y gwasanaeth gwella ysgolion a'r Adran Adnoddau Dynol.

Beth ellir ei wneud i leihau'r risg o effaith negyddol?

Eglurwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol a nodir uchod.

Amh. – ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol

A oes angen triniaeth fwy ffafriol i gyflawni deilliannau cyfartal? (Anabledd yn unig)

Amh.

A fydd yr effaith yn gadarnhaol, yn negyddol ynteu'n niwtral?

Eglurwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol a nodir uchod.

Oedran – Cadarnhaol

Anabledd – Cadarnhaol

Ailbennu rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth o ran rhywedd – Niwtral

Priodas a phartneriaeth sifil – Niwtral

Beichiogrwydd a Mamolaeth – Niwtral

Hil – Niwtral

Crefydd a chred – Niwtral

Rhyw – Niwtral

Cyfeiriadedd rhywiol – Niwtral

(Y Gymraeg – Niwtral

Hawliau dynol – Cadarnhaol

Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol - Niwtral)

Gweler y rhesymau a nodwyd yn yr adrannau blaenorol. I gloi, nid oes risg wirioneddol o wahaniaethu uniongyrchol nac anuniongyrchol gan bod y Cyngor yn mynd ar drywydd nod dilys (sef gwella capasiti ac effeithlonrwydd addysg) a bod y penderfyniad i gyhoeddi'r cynigion i wneud newidiadau a reoleiddir yn ddull cymesur o gyrraedd y nod hwnnw.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

8. Monitro'r effaith barhaus

Dyddiad y byddwch yn monitro cynnydd

Mae data CYBLD yn flynyddol ac os caiff ei gymeradwyo gan y Cabinet bydd cynllun prosiect ar gyfer y cynnig hwn yn cael ei gychwyn. Bydd hyn yn cynnwys cyfeirio at y ddogfen hon. Bydd unrhyw newidiadau mewn deilliannau o ganlyniad i'r gwaith dadansoddi parhaus yma'n cael eu defnyddio i ddiweddarau'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys unrhyw gamau lliniaru a all fod yn ofynnol.

Mesurau y byddwch yn eu monitro

Bydd data CYBLD ar gyfer yr holl ddisgyblion yn cael ei ddadansoddi a'i fonitro yn ôl Oedran, Anabledd, Hil, Crefydd a Chred a'r Gymraeg. Mae'r Tîm Cydraddoldeb yn monitro data gwasanaethau ac yn darparu gwybodaeth yn yr adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol. Mater i'r corff llywodraethu yn ei Gynllun Gwella Ysgol yw'r mesurau a nodir ar gyfer addysg disgyblion.

Dyddiad y byddwch yn adolygu'r cynnig a'i effaith ar ôl ei roi ar waith

Yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cabinet, bydd yr ysgol yn cael cefnogaeth a her estynedig yn y flwyddyn yn dilyn symud fel sy'n arferol yn dilyn ad-drefnu ysgolion. Bydd hyn yn cael ei ddarparu gan Gonsortiw Canol De Cymru a'r Cyngor. Wedi hynny, bydd yr ysgol yn cael ei monitro a'i herio'n rheolaidd gan Gonsortiw Canol De Cymru, Estyn a'r Cyngor.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau'n gadarn, bod y dysgu a'r addysgu o ansawdd da a bod arweinyddiaeth a llywodraethu'n gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion ac i roi cymorth i wella ysgolion.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n un o gyrff y Goron, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond mae'n cael ei chyllid gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau mewn darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Sefydlwyd Cydwasanaeth Addysg Consortiw Canol De Cymru (CACCDC) ym mis Medi 2012. Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Consortiw i gefnogi a herio'r holl ysgolion ym Mro Morgannwg.

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol i arolygu ysgolion. Diben arolygiad yw adnabod nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Ym mis Medi 2017 fe gyflwynwyd Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer Ysgolion gan Estyn sy'n berthnasol i'r holl ysgolion ledled Cymru.

Cafodd Ysgol Feithrin Bute Cottage ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Hydref 2013 (dan y fframwaith blaenorol). Mae'r adroddiad arolygu ar gyfer Ysgol Feithrin Bute Cottage i'w gael yma: <https://www.estyn.gov.wales/provider/6731013>

Cafodd Ysgol Gynradd Evenlode ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Mawrth 2015 (dan y fframwaith blaenorol). Mae'r adroddiad arolygu ar gyfer Ysgol Gynradd Evenlode i'w gael yma: <https://www.estyn.gov.wales/provider/6732148>

Cafodd Ysgol Feithrin Cogan ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2019. Mae'r adroddiad arolygu ar gyfer Ysgol Feithrin Cogan i'w gael yma: <https://www.estyn.gov.wales/provider/6731011>

Cafodd Ysgol Gynradd Cogan ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Mai 2018. Mae'r adroddiad arolygu ar gyfer Ysgol Gynradd Cogan i'w gael yma: <https://www.estyn.gov.wales/provider/6732114>

9. [Camau gweithredu pellach o ganlyniad i'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb](#)

Deilliannau Posibl	Dywedwch pa rai sy'n berthnasol
Dim newid mawr	le
Addasu'r polisi	
Parhau â'r polisi	
Atal y polisi a rhoi'r gorau iddo	

10. [Deilliannau a Chamau Gweithredu](#)

Argymhell camau gweithredu i'r uwch dîm rheoli
Deilliant yn dilyn ystyriaeth ffurfiol i'r cynnig gan yr uwch dîm rheoli

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

11. [Nodyn pwysig](#)

Lle'r ydych wedi adnabod effeithiau, rhaid i chi nodi hyn yn eich adroddiad i'r Cabinet wrth geisio cymeradwyaeth i'ch cynnig.

12. [Cyhoeddi](#)

Ble fyddwch chi'n cyhoeddi eich cynnig cymeradwy a'ch asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb?

Gwefan Bro Morgannwg

Yn ogystal ag unrhyw le yr ydych yn bwriadu cyhoeddi eich cynnig cymeradwy a'ch asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, rhaid i chi anfon copi at Tim Greaves, Cydlynnydd Cydraddoldeb, i'w gyhoeddi ar dudalennau cydraddoldeb gwefan Bro Morgannwg.

13. [Awdurdodiad](#)

Cymeradwywyd gan (enw)	Paula Ham
Teitl Swydd (uwch reolwr)	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau
Dyddiad cymeradwyo	
Dyddiad adolygu	